**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies MS
Chair
Legislation, Justice and Constitution Committee

SeneddLJC@senedd.wales

19 Hydref 2023

Annwyl Huw,

**Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Rhif 2) 2023**

Rwy'n cyfeirio at fy llythyr atoch chi dyddiedig 5 Medi. Ysgrifennaf atoch i hysbysu'r Pwyllgor fy mod wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol osod Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Rhif 2) 2023 mewn perthynas â Chymru.

Mae'r OS hwn yn diwygio Rheoliad (UE) 2019/1021 a ddargedwir gan Senedd Ewrop a'r Cyngor ar Lygryddion Organig Parhaus (ail-lunio) (y "Rheoliad POPs"). Bydd y diwygiad yn ychwanegu asid perfluorohexane sylffonig ("PFHxS"), ei halwynau a chyfansoddion sy'n gysylltiedig â PFHxS i'r rhestr o sylweddau y gwaherddir eu gweithgynhyrchu, eu rhoi ar y farchnad a'u defnyddio o dan y Rheoliad POPs. Mae hefyd yn gosod gwerthoedd terfyn ar gyfer PFHxS, ei halwynau a chyfansoddion sy'n gysylltiedig â PFHxS sy'n digwydd fel halogydd olrhain anfwriadol mewn sylweddau, cymysgeddau ac eitemau.

Diben y Rheoliadau yw gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol, sy'n cael eu gosod ar y DU drwy newidiadau i Gonfensiwn Stockholm ar POPs sy'n dod i rym ar 16 Tachwedd.

Mae'r OS hwn wedi cael ei wneud o dan Erthyglau 15(1) a 18(1) o'r Rheoliad POPs ac mae'n amodol ar weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Gwnaed a gosodwyd yr OS gerbron Senedd y DU ar 16 Hydref 2023, gan anelu at ddyddiad cychwyn o 16 Tachwedd 2023 er mwyn bodloni rhwymedigaethau rhyngwladol y DU.

Egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru. Ar yr achlysur hwn, ystyrir ei bod yn briodol i gynnwys y diwygiadau fod yn gymwys i Gymru gan nad oes gwahaniaeth rhwng polsiau Llywodraeth Cymru a'r DU ar y mater hwn. Mae'r Rheoliad POPs, sy'n cael ei ddiwygio, yn Rheoliad sy’n gymwys ar draws Prydain Fawr, felly ni ellid gwneud unrhyw ddiwygiadau iddo yn yr iaith Gymraeg.

Mae gwneud y diwygiadau hyn drwy OS fydd yn diwygio'r rheoliadau ar draws Prydain Fawr yn sicrhau llyfr statud cydlynol a chyson, a bydd y rheoliadau ar gael mewn un offeryn. Yn fy marn i, nid deddfu ar wahân i Gymru fyddai'r ffordd fwyaf priodol o weithredu newidiadau angenrheidiol na defnydd darbodus o adnoddau Llywodraeth Cymru o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.

Yn gywir,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**